

**Mynd ar-lein:  
rhwystrau a  
llwyddiannau wrth  
ddarparu dysgu ar-  
lein yn ystod cyfnod clo  
Haen 4 mis Ionawr  
2021**

**Briff gan Gomisiynydd Plant Cymru,  
mis Ionawr 2021**



**Comisiynydd  
Plant Cymru  
Children's  
Commissioner  
for Wales**

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig ciplun o'r rhaniad digidol o safbwynt ysgolion a cholegau yng Nghymru ym mis Ionawr 2021, yn ystod cyfnod clo sydd wedi arwain at gau adeiladau ysgolion a cholegau i bawb heblaw am blant gweithwyr allweddol y mae angen gofal plant arnynt i gyflawni rolau hanfodol a dysgwyr y mae eu hanghenion ychwanegol yn golygu y dylid eu blaenoriaethu i fod yn bresennol. Serch hynny, nid yw ysgolion na cholegau wedi bod 'ar gau'. Yn hytrach, ynghyd â darparu gofal ar gyfer y plant a'r bobl ifanc sy'n mynychu wyneb yn wyneb, maen nhw'n darparu dysgu o bell i'w holl ddysgwyr. Mae llawer o'r ddarpariaeth hon, ond nid y cyfan ohoni, yn ddibynnol ar fod gan blant a phobl ifanc adnoddau digidol, a chefnogaeth a hyder eu rhieni i'w galluogi nhw i gael mynediad at y dysgu.

Ym mis Ionawr, nododd y Comisiynydd a'i thîm bod pryderon yn dal i gael eu hadrodd yn y wasg ac wrth ein swyddfa am blant heb ddyfeisiau digidol a band eang neu ddata i gael mynediad at eu dysgu. Roedden ni'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn archwilio lefel y ddarpariaeth a'r angen ledled Cymru, ond roedd hi'n annhebygol y byddai'r canlyniadau'n cael eu cyhoeddi yn y dyfodol agos, ac felly penderfynon ni geisio cael syniad o'r angen drwy fynd yn uniongyrchol at benaethiaid ysgolion a cholegau.



Comisiynydd  
Plant Cymru  
Children's  
Commissioner  
for Wales

# Crynodeb

Mae'r briff hwn yn adrodd ar ganfyddiadau cip-arolwg — a gynhaliwyd dros 8 diwrnod — o 167 o bennaethiaid ysgolion a cholegau yng Nghymru ym mis Ionawr 2021, yn ystod cyfnod clo Covid-19 sydd wedi golygu bod adeiladau ysgolion a cholegau ar gau i bawb ond dysgwyr sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr allweddol. Mae'r rhan fwyaf o addysgu a chefnogaeth yn cael eu cynnal gan ddefnyddio dulliau cyfunol, gan gynnwys addysgu ar-lein. Gofynnodd yr arolwg i'r Bennaethiaid am anghenion digidol eu dysgwyr a'r rhwystrau rhag gallu darparu dysgu o bell.

Mae'r canlyniadau'n dangos amrywiaeth eang o amgylchiadau ymhlith yr ysgolion a'r colegau a ymatebodd. Adroddodd llawer o leoliadau bod rhwystrau cymdeithasol, gan gynnwys diffyg hyder, amser a sgiliau ymhlith rhieni i gefnogi eu plant ac, mewn rhai achosion, ymgysylltiad isel gan deuluoedd, yr un mor bwysig â diffyg dyfeisiau a band eang.

Ym mwy na hanner y lleoliadau, mae gan 90% o'r dysgwyr fynediad at ddyfais ddigidol, ac yn chwarter yr ysgolion a'r colegau, adroddwyd bod gan yr *holl* ddysgwyr fynediad, ond roedd gan 12% o'r ysgolion o leiaf 20% o ddysgwyr heb fynediad. Adroddodd y colegau ystod o 0-20% o ddysgwyr heb fynediad at ddyfeisiau. Mae cael mynediad a rennir at ddyfais, yn hytrach na mynediad neilltuol, yn gyffredin, ac roedd dros hanner y dysgwyr yn rhannu mynediad yn 36% o'r ysgolion a'r colegau.

Adroddwyd am ystod eang o rwystrau, a'r un mwyaf cyffredin oedd teuluoedd ddim yn cysylltu â'r ysgol neu goleg i wneud trefniadau ar gyfer mynediad digidol (a oedd wedi digwydd yn 49% o'r lleoliadau), a doedd gan 42% o'r lleoliadau ddim digon o ddyfeisiau. Roedd rhai cartrefi heb fynediad at y rhyngwrwyd ym mwy na 52% o'r ysgolion a cholegau, ac roedd rhai cartrefi heb ddigon o ddata yn 46% ohonynt.

Roedd sylwadau testun rhydd gan Bennaethiaid yn datgelu bod llawer wedi cael llwyddiant yn ymgysylltu â dysgwyr drwy ddefnyddio ystod eang o ddulliau, gan gynnwys sicrhau bod gan deuluoedd offer digidol, defnyddio cymysgedd o addysgu byw a gwersi wedi'u paratoi ymlaen llaw i hwyluso rhannu dyfeisiau, a darparu deunyddiau copi caled. Mae hyder a sgiliau ymhlith staff i ddarparu dysgu cyfunol wedi cynyddu, ond roedd hynny ar draul llesiant yn achos rhai ohonynt o ganlyniad i straen gofynion sy'n newid yn gyflym. Mynegodd sawl un ddieter ynghylch y rhwystrau ymarferol, gan gynnwys diffyg darpariaeth gan lywodraeth ganolog er i gyllid gael ei flaenoriaethu'n gynnar yn y pandemig, ynghyd â phwysau gan y cyhoedd a'r wasg i ddarparu gwersi byw, nad ydynt bob amser er budd gorau'r dysgwyr yn ôl yr hyn sy'n cael ei adrodd.



Comisiynydd  
Plant Cymru  
Children's  
Commissioner  
for Wales

# Dulliau

Datblygwyd arolwg byr a'i beilota gydag un pennaeth cyn ei rannu drwy ein rhwydwaith ysgolion, a gyda chefnogaeth gan Consortia Addysg Rhanbarthol, Undebau Athrawon ac awdurdodau lleol. Gofynnwyd i bob Cyfarwyddwr Addysg rannu'r arolwg gyda'u hysgolion a'u colegau. Gwnaeth llawer hynny, ond atebodd dau i ddweud eu bod eisoes yn casglu'r data hwn ac y bydden nhw'n rhannu'r canfyddiadau gyda ni yn y man, yn hytrach na gofyn i'w Penaethiaid gwblhau arolygon pellach. Roedd yr arolwg ar agor am 8 diwrnod yng nghanol mis Ionawr 2021.

Cynigiodd yr arolwg gyfle i arweinwyr ysgolion a cholegau ddarparu sylwadau testun rhydd ychwanegol, a chymerodd llawer ohonynt y cyfle hwn. Defnyddiwyd dull anwythol i godio a dadansoddi'r sylwadau hyn i themâu allweddol, ac fe'u defnyddir yn y briff hwn i gynnig cyd-destun ar gyfer yr ystadegau a ddarperir, ynghyd â darparu dealltwriaeth ddyfnach o ymdrechion presennol ysgolion a cholegau a'r rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu.

Ymatebodd 167 o arweinwyr ysgolion a cholegau yng Nghymru o 19 awdurdod lleol i'r arolwg, ac rydyn ni'n ddiolchgar iawn iddyn nhw am roi'r amser i wneud hyn yng nghanol cyfnod heriol iawn. Roedd 162 o'r ymatebwyr yn dod o ysgolion, gan gynrychioli 11% o ysgolion Cymru<sup>1</sup>. Roedd 30 o'r ymatebwyr yn benaethiaid ysgolion uwchradd, gan gynrychioli 16% o ysgolion uwchradd Cymru. Roedd 125 o'r ymatebwyr o ysgolion cynradd (10% o ysgolion cynradd), ac ysgolion 3-17, ysgolion arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion oedd y saith ysgol sy'n weddill. Ymatebodd pum coleg, ac roedd o leiaf ddau ohonynt yn golegau aml-gampws â champysau mewn mwy nag un awdurdod lleol. Mae hyn yn cynrychioli 38% o Golegau Addysg Bellach Cymru. Roedden ni'n falch o gael ymatebion gan ysgolion/colegau o 19 o'r 22 ardal awdurdod lleol. Dylid nodi bod ymatebion gan leoliadau yn Rhondda Cynon Taf, Powys a Wrecsam yn cyfrif am ychydig dros hanner yr ymatebion (53% o 87 o ymatebion).

Roedd 70% o'r lleoliadau a ymatebodd i'r arolwg hwn yn rhai cyfrwng Saesneg, roedd 22% yn rhai cyfrwng Cymraeg, ac 8% yn ddwyieithog, yn ddwy ffrwd neu'n Saesneg â darpariaeth Gymraeg sylweddol.

<sup>1</sup> [Canlyniadau cyfrifiad ysgolion: mis Ionawr 2020 | GOV.WALES](#)




# Canfyddiadau meintiol

## Faint o ddysgwyr sydd heb fynediad at ddyfais ddigidol?


Mae'n gadarnhaol nodi bod 101 o ymatebion (60%) wedi dweud mai llai na 10% o'u dysgwyr oedd heb fynediad at ddyfais, gyda 44 ymateb (26%) yn nodi bod gan eu holl ddysgwyr fynediad at ddyfais. Serch hynny, nododd ugain o ysgolion (12%) fod dros 20% o'u dysgwyr heb fynediad at ddyfais. Adroddodd colegau Addysg Bellach ystod o 0-20% o ddysgwyr heb fynediad at ddyfais.

## Faint o ddysgwyr sy'n rhannu mynediad at ddyfais ddigidol?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn nodi bod cyfran o'u dysgwyr yn rhannu dyfeisiau, felly er bod ganddynt fynediad, mae'r mynediad hwnnw'n cael ei rannu. Dim ond dau ymateb nododd nad oedd dyfeisiau'n cael eu rhannu yn y teulu. Mae'r tabl isod yn dangos yr ystod eang o amgylchiadau yn ysgolion a cholegau Cymru, gyda 95 (64%) â llai na hanner eu dysgwyr yn rhannu dyfais, ac yn 53 (36%) o'r ysgolion a'r colegau, roedd dros hanner y dysgwyr yn rhannu dyfais. Atebodd 148 o ymatebwyr y cwestiwn hwn.



Gofynnwn ni am unrhyw rwystrau sy'n atal dysgwyr rhag cael mynediad at ddyfais os oedd angen, ac roedd yr ymatebion yn nodi mai'r pryder mwyaf cyffredin oedd teuluoedd heb fod mewn cyswllt â lleoliadau er mwyn trefnu darpariaeth (81, neu 49% o'r holl leoliadau), wedi'i ddilyn gan ddiffyg dyfeisiau ar gael (71, neu 42% o'r holl leoliadau).



Gofynnwn ni hefyd ynghylch rhwystrau rhag cael mynediad at y rhyngwrwd, a nododd 87 o'r 167 o ymatebwyr (52%) nad oedd gan rai o'u teuluoedd fynediad at y rhyngwrwd, ac adroddodd 76 (46% o'r 167 o ymatebwyr) nad oedd gan rai o'u cartrefi ddigon o ddata i gael mynediad at ddysgu.



O ran y ddau awdurdod lleol a ymatebodd i ni drwy e-bost:

- Dywedodd un eu bod nhw, yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf, wedi canfod a darparu ar gyfer oddeutu 1,340 o ddysgwyr a oedd wedi'u heithrio'n ddigidol (roedd hyn yn cynnwys 560 a oedd heb fynediad addas at y rhyngwrwyd). Cynhaliwyd archwiliad tebyg yn ystod y cyfnod clo hwn, a nodwyd 798 o ddysgwyr pellach (gyda 143 y mae arnynt angen mynediad at y rhyngwrwyd yn y tî). Mae cynlluniau ar waith i ddarparu ar gyfer y dysgwyr hynny.
- Nododd yr awdurdod lleol arall eu bod wedi llwyddo rhoi dyfeisiadau a WiFi i bob dysgwyr oedd angen, ym mis Ionawr. "Mae ymgysylltiad yn fwy na 95% ar draws yr awdurdod ac mae'n swyddogion yn y gwasanaeth lles yn cefnogi lle bod angen i sicrhau nod oes yn dysgwr yn teimlo'n ynysig. Mae'n hysgolion uwchradd yn arwain y ffordd gyda dysgu ar-lein byw ac mae'n hysgolion cynradd yn cynnig bwydlen newydd wedi'i selio ar y cwricwlwm yn llawn gweithgareddau ysgogol yn ogystal â gwaith ar bynciau craidd."

# Canfyddiadau ansoddol

Adlewyrchir darlun cymysg yn y sylwadau testun rhydd a ddarparwyd gan Benaethiaid, gyda rhai yn nodi eu bod wedi gallu darparu dyfais a dongl MiFi i bob dysgwr mewn angen, ond amlinellodd eraill nifer o rwystrau a rhwystredigaethau. Yn gyffredinol, mae'r sylwadau'n darparu darlun cyfoethog o'u hymdrechion, eu llwyddiannau, a'u hanawsterau wrth sicrhau bod eu dysgwyr a'u staff wedi'u cysylltu'n ddigidol er mwyn parhau â'u dysgu tra bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gorfod aros gartref.

Cawson ni'n taro'n arbennig gan yr ymdrech sylweddol ac amrywiol yr oedd yr ysgolion a'r colegau wedi mynd iddi i ddarparu ar gyfer anghenion amrywiol eu disgyblion, i'w cael nhw i gyd ar-lein ac i ddarparu gwersi priodol a chefnogaeth llesiant gan ddefnyddio ystod eang o ddulliau. Roedd hi'n amlwg bod llawer yn teimlo bod portreadau yn y wasg a chanfyddiadau'r cyhoedd yn camddeall yr ymdrech roedden nhw'n mynd iddi, ac er bod gwersi byw yn rhan bwysig o ddarpariaeth gymysg, nid dyna'r ffordd fwyaf effeithiol o fodloni anghenion dysgwyr drwy gydol y dydd bob amser.

## Cyflenwi dyfeisiau

Roedd y sylwadau testun rhydd yn cefnogi'r canfyddiadau meintiol bod rhai ysgolion a cholegau wedi gallu diwallu'r angen a nodwyd am ddyfeisiau digidol. Ymhlith yr enghreifftiau llwyddiannus o wneud hynny roedd bod â digon o offer yn yr ysgol, defnyddio cyllidebau'r ysgolion a'r colegau i brynu cyflenwad ychwanegol, a chefnogaeth o ansawdd dda gan yr awdurdod lleol a thrwy gyllid gan y llywodraeth.

*"Rydyn ni wedi darparu dyfeisiau i bob teulu sydd wedi gofyn amdany'n nhw".*

*"Mae ganddon ni bellach ddigon o liniaduron i sicrhau bod gan bob cartref fynediad at offer technoleg gwybodaeth"*

*"Rydyn ni wedi dosbarthu 1000 o liniaduron i ddysgwyr. Mae ganddon ni ddyfeisiau ychwanegol i'w rhoi i ddysgwyr os oes angen. Rydym ni wedi cyllidebu ar gyfer 1800 o ddysgwyr o'r 4450 ohonynt sydd wedi ymrestru yn y coleg"*

*"Mae'r awdurdod lleol wedi bod yn effeithiol iawn o ran cyflenwi dyfeisiau a sicrhau bod gan bawb gysylltiad i'r we."*

Dywedodd un ysgol eu bod wedi cludo dyfeisiau yn bersonol i gartrefi plant pan nad oedd modd i'w rhieni eu casglu.

Serch hynny, mae nifer o heriau sylweddol yn dal i fod o ran sicrhau bod cyflenwad digonol. Mae hyn yn cynnwys y lefel amlwg o angen mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd. Mynegwyd rhai rhwystredigaethau o ran pa mor araf roedd y cyflenwad i ysgolion ar ôl gwneud archebion gyda Llywodraeth Cymru neu eu hawdurdod lleol fisoedd ymlaen llaw. Gwnaeth nifer o'r ymatebwyr sylwadau yn nodi, er eu bod yn cydnabod bod y Llywodraeth wedi darparu cyllid, bod y broses gyflenwi ei hun wedi



bod yn araf. Er i lawer sôn am gefnogaeth ardderchog gan eu hawdurdod lleol, roedd niferoedd bach hefyd a oedd yn teimlo bod cefnogaeth eu hawdurdod lleol wedi bod yn wael, gydag amser aros hir ar gyfer ailffurfweddu neu atgyweirio dyfeisiau.

*"Gwnaethon ni archeb fawr iawn yn defnyddio cyllid grant Llywodraeth Cymru ar gyfer offer technoleg gwybodaeth... Gwnaed yr archeb yma yn gynnar iawn yn nhymor yr hydref, ac rydyn ni'n dal i aros iddo gyrraedd, a dydyn ni ddim yn siŵr beth sy'n digwydd gyda'r broses yma."*

*"Rhoddodd y Llywodraeth swm nodedig o arian i'r holl ysgolion brynu dyfeisiau, ond mae oedi wedi bod o ran eu darparu"*

Nododd nifer o ymatebwyr hefyd bod rhai awdurdodau lleol wedi blaenoriaethu grwpiau penodol ar gyfer dyfeisiau, oherwydd y galw uchel. Roedd y grwpiau blaenoriaeth, i ddechrau o leiaf, yn cynnwys y rhai a oedd yn cael prydau ysgol am ddim a disgyblion hŷn mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Lle roedd penderfyniadau wedi'u gwneud i flaenoriaethu grwpiau penodol, mae'n debygol mai polisi'r ysgol neu awdurdod lleol unigol oedd hyn, gan nad yw hyn yn rhan o feini prawf Llywodraeth Cymru o ran darparu cyllid ar gyfer dyfeisiau.

## Cynnydd mewn galw

Nododd llawer o ymatebwyr bod anghenion cyflenwi wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y cyfnod clo presennol. Roedd hyn yn rhannol oherwydd y disgwyliadau cynyddol o ran y ddarpariaeth addysgol, gan gynnwys llawer mwy o wersi byw, gan olygu bod rhannu dyfeisiau bellach yn fwy problematig. Nododd llawer bod y ffaith bod disgyblion ysgol uwchradd yn cael gwersi byw drwy'r dydd yn golygu bod yn rhaid i frodyr neu chwirydd iau aros tan yn hwyrach yn y dydd i ddefnyddio dyfais, gan ei gwneud hi'n anodd iawn cynnig mwy na sesiynau byw byr yn ystod y diwrnod ysgol ar gyfer y disgyblion iau hyn heb ddarparu mwy o ddyfeisiau. Golygai darpariaeth addysgol gynyddol gymhleth hefyd bod mynediad drwy ffonau symudol yn llai boddhaol yn y cyfnod clo presennol.

*"Prynon ni chromebooks ychwanegol, ac rydyn ni wedi benthyg rhain i deuluoedd oedd heb ddyfais, ond mae llawer o blant yn rhannu dyfeisiau gyda brodyr a chwirydd hŷn neu rieni sy'n gweithio o gartre. Mae'r rhieni'n adrodd bod gofyn i ddisgyblion uwchradd fynychu sesiynau dysgu o bell yn fyw, sydd ddim yn gadael llawer o amser iddyn nhw oruchwylio brodyr neu chwirydd iau."*

## Band eang a data

- Rhyngrwyd o ansawdd isel yn yr ardal leol

Er i rai ymatebwyr ddweud nad oedd dim materion rhyngrwyd yn effeithio ar eu dysgwyr, adroddodd sawl ysgol am broblemau gyda band eang a signal gwael yn eu hardal:

*"Mae cysylltiad y rhyngrwyd yn ein hardal ni yn araf ac yn wan iawn. Dydy'r rhan fwyaf o'r disgyblion heb gysylltu â ffeibr optig. Dw i wedi cael dyfeisiau MiFi y gellid eu darparu i deuluoedd, ond mae'r signal symudol yn waeth na'r band eang, felly dydy rhain o ddim defnydd. Mae hyn yn cyfyngu ar y ffordd mae modd darparu dysgu a'i hygyrchedd."*

*"Cysylltiad gwael mewn ardaloedd mynyddig lleol"*

- **Diffyg data**

Dyweddod nifer o ymatebwyr ei bod hi'n annheg bod gan blant yn Lloegr gynigion gwell na phlant yma yng Nghymru ar ddata am ddim ar gyfer deunyddiau addysgol. Roedd hyn yn cyfeirio at stori gan y BBC a ddaeth i'r amlwg pan oedd yr arolwg ar agor<sup>2</sup>. Dylid nodi bod un cyflenwr band eang, BT, wedi cysylltu â'r Comisiynydd ar ôl y stori hon i egluro bod awydd gwirioneddol i gefnogi plant ledled y Deyrnas Unedig yn deg, a'u bod yn cymryd camau i sicrhau bod hyn yn digwydd.

*"Mae nifer o'n dysgwyr yn byw gyda'u neiniau a'u teidiau neu aelodau eraill o'u teulu, sydd heb ddata anghyfyngedig, ac maen nhw'n gorfod benthg neu rannu dyfeisiau neu ddefnyddio poethfan i gwblhau gwaith. Bydden ni wir yn gwerthfawrogi pe bai mynediad at declynnau a gwefannau addysgol fel Google G Suite a Google Classroom yn cael ei eithrio o gyfyngiadau data symudol yn ystod y cyfnod y mae'r pandemig yn effeithio'n ddifrifol ar ysgolion. Mae'n hynod annheg bod datblygiadau wedi cael eu gwneud yn Lloegr gyda hyn. Mae ganddon ni ddarpariaeth dysgu cyfunol hefyd (yn amrywio o wersi byw, fideo eglurhad wedi'i recordio ymlaen llaw, i ddeunydd ysgrifenedig) ond mae rhywfaint o hyn yn defnyddio llawer o ddata."*

*"Mae cysylltedd gwael iawn yn yr ardal, mae llawer o'r rhieni'n defnyddio ffonau talu wrth fynd ac ar incwm isel iawn, ac felly yn aml ni all disgyblion gael mynediad at ddim byd tan i'r rhiant roi mwy o gredyd ar eu ffôn"*

*"O safbwynt ysgol, mae'n hollol hanfodol nid yn unig fod gan bob cartref, ond pob disgybl, fynediad at ddyfeisiau priodol a chysylltiad effeithiol â'r rhyngwrwyd. Rydyn ni'n ysgol uwchradd sy'n gwasanaethau ardal ag amddifadedd cymdeithasol ac economaidd uchel, gydag oddeutu 35% o'n disgyblion yn gymwys am Brydau Ysgol am Ddim. Mae'r diffyg dyfeisiau a chysylltedd wedi cael effaith enfawr ar y ddarpariaeth dysgu o bell rydyn ni wedi gallu ei chynnig. Mae lefel enfawr o amser ac arian staff yn mynd ar gynhyrchu adnoddau a phecynnau copi caled a'u dosbarthu nhw i'r rhai sydd wedi'u heithrio'n ddigidol, ac mae ein rhaglen ddysgu ar-lein yn cael ei rhwystro oherwydd faint o'n disgyblion sy'n dal wedi'u heithrio'n ddigidol. Heb ystyried pandemig COVID, mae'n rhaid i'r agwedd yma fod yn brif flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru, a byddai hyn yn gam anferthol ymlaen i leihau'r bwch tlodi a chyffleoedd."*

## **Amgylchedd y cartref**

Cymerodd llawer o'r Penaethiaid y cyfle i egluro nad dim ond cael yr offer a'r band eang sydd ei angen i gysylltu gyda dysgwyr, ond bod ffactorau cymdeithasol yn chwarae rôl anferthol hefyd. Nodwyd bod cefnogaeth ardderchog gan rai teuluoedd, ond gwnaeth llawer sylwadau ar ystod o broblemau, gan gynnwys diffyg hyder a sgiliau technoleg gwybodaeth neu addysg y rhieni neu'r gofalwyr, teuluoedd ddim yn ymateb i sawl ymgais wahanol i gysylltu, anhawster yn cynnal trefn ddyddiol, a rhieni'n ceisio cydbwysu gweithio o gartref a mwy nag un plentyn.

Mae'r dyfyniad canlynol yn dangos yr ystod o amgylchiadau y gall plant mewn un ysgol eu hwynebu:

*"Amrywiaeth o amgylchiadau mewn cartrefi amrywiol — mae rhai yn defnyddio'r rhyngwrwyd drwy eu ffôn (yn aml â chyfyngiad ar eu data) tra bod gan deuluoedd eraill ddyfeisiau ar gyfer pob plentyn yn y tŷ."*

<sup>2</sup> <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-55666647>

Mae'r dyfyniadau canlynol yn rhestru'r ystod o heriau mae teuluoedd yn eu hwynebu mewn rhai o'r ysgolion mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn gymdeithasol-economaidd. Roedd llawer mwy o ddyfyniadau yn gwneud pwyntiau tebyg:

*"Hyd yn oed pan rydyn ni'n cael y dyfeisiau i'r cartrefi, pan mae cartrefi'n orlawn mae'n anodd iawn i blant gael mynediad tawel. Mae costau trydan yn gallu bod yn broblem, ynghyd â theuluoedd sy'n ei chael yn anodd creu trefn ddyddiol. Mae ganddon ni deuluoedd o hyd at wyth o blant, rhai uwchradd, rhai cynradd. Mae'n anodd iawn i rieni reoli'r diwrnod i alluogi plant i gael mynediad priodol. Mae gan rai rhieni diffyg sgiliau llythrennedd/rhifedd a thechnoleg gwybodaeth, ac maen nhw'n ei chael yn anodd helpu a chefnogi'r dysgwyr. Nid yw rhai rhieni'n annog y plant i ymgysylltu hyd yn oed pan rydyn ni'n wedi darparu dyfeisiau, cefnogaeth a chysylltiad â'r rhyngwyd."*

*"Mae'r athrawon yn gweithio'n eithriadol o galed i ymgysylltu â'r plant, ac yn gwneud hynny drwy ddysgu ar-lein dyddiol a galwadau ffôn o leiaf bob wythnos. Rydyn ni hefyd yn darparu copïau argraffedig o'r gweithgareddau ar gyfer y teuluoedd hynny y mae'n well ganddyn nhw gopïau papur o'r dysgu. Rydyn ni mewn ardal ddifreintiedig (74% o'r dysgwyr yn gymwys am brydau ysgol am ddim), ac un rhwystr sylweddol i rai plant yng nghymuned ein hysgol ni yw bod rhai rhieni ddim yn eu cefnogi na'u hannog nhw i ymwneud â'u dysgu ar-lein. Rydyn ni'n ceisio goresgyn hyn drwy alwadau ffôn rheolaidd gyda'r rhieni, ac yn annog y rhai mwyaf agored i niwed i ddod i'r ysgol."*

Nododd rhai Penaeithiaid bod ymgysylltiad wedi cynyddu yn y cyfnod clo presennol o gymharu â'r gwanwyn diwethaf, ond dywedodd rhai ei fod wedi gwaethygu, gyda llawer o rieni'n teimlo straen problemau gan gynnwys colli incwm.

*"Anodd cael cyswllt gyda rhai cartrefi. Dim ymateb gan y plentyn na'r rhiant"*

*"Mae llawer o'r teuluoedd yn dangos llawer mwy o straen yn y rhieni yn y cyfnod clo hwn o gymharu â'r un diwethaf. Mae ganddon ni niferoedd cynyddol yn gwneud cais am lefydd yn yr ysgol, ac mae llawer mwy o deuluoedd yn cyfaddef eu trafferthion."*

Er bod y rhan fwyaf o'r rhwystrau o ran ymgysylltiad rhieni yn ymwneud â diffyg hyder neu ymateb, bu i nifer fach grybwyll hefyd bod gan rai rhieni ddisgwyliadau afrealistig o uchel i gael gwersi byw drwy'r dydd, er enghraifft. Nododd un Pennaeth eu bod nhw hyd yn oed wedi cael rhieni yn monitro ac yn tarfu ar wersi disgyblion uwchradd, rhywbeth a oedd yn arbennig o anghyfforddus i athrawon a oedd newydd gymhwyso.

## **Darpariaeth ar gyfer dysgu o gartref**

Yn yr ymatebion, roedd yn nodedig bod yr ysgolion a'r colegau a ymatebodd i'r arolwg wedi bod yn gweithio'n galed i ddatblygu eu darpariaeth o gefnogaeth a dysgu o bell ac ar-lein. Mae ystod eang o ddulliau'n cael eu defnyddio i ymgysylltu â dysgwyr, gan gynnwys gwersi byw ac wedi'u recordio ymlaen llaw, gweithgareddau drwy lwyfannau ar-lein, pecynnau copi caled o ddeunydd wedi'u cludo i'r cartref, galwadau ffôn llesiant, ac annog mwy o ddisgyblion agored i niwed i ddod i'r ysgol.

Enghreifftiau yw'r canlynol, ond roedd llawer o ddyfyniadau tebyg:

*"Mae Hwb a Teams wedi bod yn arbennig, felly diolch Llywodraeth Cymru. Mae dysgu ar lein yn ystod yr ail gyfnod clo wedi bod yn llwyddiannus. Rydyn ni nawr yn cynnig 2 sesiwn y dydd yn ogystal â chynnig sesiynau ymarfer corff byw dair gwaith y dydd a sesiynau canu/meddylfryd o dwf ddwywaith. Rydyn ni*

*wedi gallu cynnig sesiynau byw i blant ADY a phlant targed mewn iaith a Mathemateg yn ogystal â chynnig sesiynau lles i grwpiau bychain o blant. Rydw i'n hynod hapus gydag adborth rhieni hefyd, gyda chanran uchel iawn yn ymrwymo i'r gwersi byw, ac mae'r holiaduron yn dangos bod y disgyblion a'r rhieni/gwarchodwyr yn hapus iawn. Mae plant gweithwyr allweddol a'r plant bregus hefyd yn ymrwymo i'r gwersi byw o'r ysgol."*

*"Rydyn ni wedi datblygu ein dysgu ar-lein wrth i'r misoedd fynd ymlaen yn seiliedig ar Arolygon Rhieni, trafodaethau gyda staff a disgyblion. Rydyn ni'n credu bod ganddon ni bellach ddarpariaeth Dysgu Cyfunol effeithiol ar gyfer yr holl ddisgyblion, sy'n cael ymgysylltiad ardderchog. Mae'r holl staff yn cynnig cefnogaeth i'r holl deuluoedd y mae arnynt angen cefnogaeth ychwanegol gyda dysgu ar-lein."*

## **Manteision ac anfanteision gwersi byw**

Cymerodd llawer o'r ymatebwyr y cyfle i wneud sylwadau ar y pwysau i ddarparu gwersi ar-lein 'byw', pan efallai nad dyma yw'r dull gorau ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr, oni bai ei fod yn rhan o ddull cymysg. Roedd y rhesymau'n cynnwys dysgwyr yn rhannu dyfeisiau a ddim ar gael ar adeg y wers, a rhai disgyblion yn ei chael yn haws deall pan maen nhw'n gallu gwyllo fideos yn ôl neu edrych drwy wybodaeth ysgrifenedig ategol. Ymhlith manteision gwersi byw a amlygwyd roedd y gallu i ryngweithio, a manteision i lesiant disgyblion pan maen nhw'n gallu rhyngweithio gyda'r athro a'r disgyblion eraill.

Mae'r canlynol yn cyfleu problemau a godwyd gan nifer o ymatebwyr:

*"Mae rhieni'n defnyddio mwy o gopiâu o becynnau papur y tro hwn. Mae gwersi wedi'u recordio wedi cael derbyniad da, ac yn fy marn i maen nhw'n fwy gwerthfawr ac yn haws i'r rhieni eu rheoli na gwersi wedi'u ffrydio'n fyw, sy'n gyfyngedig iawn o ran amser. Mae'r rhieni'n hoffi gallu mynd yn ôl a gwrandao ar eglurhad unwaith eto, ac ymweld â gwers pan mae'n gyfleus iddyn nhw allu ei chefnogi. Mae ffrydio byw yn atal hynny, ac mae'n gallu golygu bod angen cefnogaeth y rhieni ar fwy nag un plentyn yn yr un teulu ar yr un pryd. Mae manteision i ffrydio byw o ran cael gweld sut mae'r plant a'r ffaith eu bod yn hoffi'r rhyngweithio, ond mae ymatebion gan ein rhieni'n nodi bod yn well ganddyn nhw'r recordiadau. Mae gwahaniaethu'n haws gyda recordiadau hefyd. Mae'r disgyblion yn llai tebygol o ddweud beth dydyn nhw ddim yn ei ddeall mewn gwers sydd wedi'i ffrydio'n fyw nag y bydden nhw yn y dosbarth, lle mae modd gwneud hynny'n fwy cyfrinachol."*

Roedd sawl Pennaeth yn teimlo nad oedd y canfyddiad cyhoeddus o wersi byw o reidrwydd yn cyfateb i realiti'r hyn sydd orau i ddisgyblion, ac yn teimlo'n rhwystredig am y drafodaeth gyhoeddus, fel y dangoswyd yn y dyfyniad hwn:

*"Mae hi ychydig yn rhwystredig bod y rhai sydd â phresenoldeb yn y cyfryngau, y wasg, a rhai gwleidyddion yn hyrwyddo gwersi byw fel safon aur, pan nad yw'r ymchwil na'r dystiolaeth yn cefnogi hyn, ac mae angen dull llawer mwy unigryw a phenodol i gyd-destun — o ran y pwnc, y cwricwlwm a'r grŵp."*

Gwnaeth sawl ymatebydd sylw yn nodi nad yw'n briodol i ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen fod yn treulio llawer o amser ar sgriniau bob dydd, er bod sawl un yn crybwyll eu bod yn gwneud 'sesiynau galw i mewn' ar-lein yn rheolaidd gyda'r disgyblion ieuengaf. Gwnaeth y dyfyniad canlynol i ni wenu:

*"Cyfarfodydd Teams gyda'r dosbarth Derbyn - doniol iawn!"*

## Rhwystredigaethau am bortreadau yn y wasg a chanfyddiadau'r cyhoedd

Nid yw rhwystredigaeth am ganfyddiadau'r cyhoedd yn ymwneud â gwersi byw yn unig, ond hefyd camddealltwriaeth o'r gwaith caled sydd wedi mynd i mewn i ddarpariaeth addysgol ers dechrau'r pandemig. Atseiniwyd y canlynol mewn sawl ymateb:

*"Mae'n gwneud i'r staff deimlo'n rhwystredig pan mae'r wasg yn cyfleu darlun o athrawon a staff ysgol diog. Mae ein staff yn gwneud popeth yn eu grym i ddarparu deiet cyfoethog a chymysg sy'n cynnwys ystod o bynciau a gweithgareddau. Maen nhw'n darparu ystod o wersi gan ddefnyddio gwahanol addysgeg. Mae ganddon ni wersi byw, cyflwyniadau wedi'u recordio ymlaen llaw, sesiynau byw bob dydd at ddibenion llesiant ac i fynd i'r afael ag unrhyw gamddealltwriaeth o'r gwersi blaenorol. Mae yna waith annibynnol, profion sillafu a thablau byw, ynghyd â gwersi a gweithgareddau cwricwlwm eraill. Mae'r staff yn gweithio'n galetach nag erioed. Dydy athrawon ddim yn gofyn am glod am wneud eu swydd; nid swydd yw addysgu, ond galwedigaeth. Mae fy staff i eisiau gwneud y gorau ar gyfer pob un plentyn, boed hynny'n golygu bod â'ch dosbarth o'ch blaen neu ddysgu o bell. Serch hynny, nid yw athrawon, staff cynorthwyol nac ysgolion yn gyffredinol yn haeddu'r craffu a'r feirniadaeth barhaus maen nhw'n ei hwynebu yn y wasg."*

Yn ddealladwy, mae rhywfaint o hyn wedi cael effaith ar lesiant staff:

*"Mae'n hollol amhosib i staff addysgu gyflawni dysgu ar-lein, gweithio yn y ddarpariaeth yn yr ysgol, cynnal gwersi byw, darparu adborth ar waith plant, gweithio yn y ddarpariaeth yn yr ysgol - mae fy staff i'n gweithio tan yn hwyr IAWN bob nos i sicrhau bod hyn i gyd yn cael ei wneud... Dim ond hyn a hyn o bwysau mae band elastig yn gallu ei gymryd tan iddo dorri."*

*"Y tro hwn, dw i wirioneddol yn poeni am lesiant y staff sy'n ceisio cydbwysu popeth"*

## Sgiliau ac adnoddau staff

*"Mae'r staff a'r disgyblion wedi dod yn fwy hyderus gyda dysgu ar-lein bob dydd — mae problemau'n dal i fod gyda lleiafrif o'r staff wrth ddefnyddio ffyrdd newydd o weithio."*

Dyweddodd ymatebydd arall bod anghenion hyfforddiant yn dal i fodoli — ond y darlun cyffredinol yn y sylwadau testun rhydd oedd fod staff wedi datblygu'r sgiliau dros y misoedd diwethaf, a'u bod yn gallu cynnig deiet cyfoethog o ddysgu cyfunol.

Crybwyllodd rhai fod cysylltedd y staff yn y cartref a diffyg offer yn broblem, yn y dechrau o leiaf, ynghyd â chydbwysu eu dyletswyddau gofalu eu hunain.

*"Ffactor allweddol arall yw prinder offer i staff ac mae hyn yn cael effaith arwyddocaol ar y ddarpariaeth. Mae'r cyfarwyddyd yn parhau i staff beidio defnyddio'u dyfeisiau eu hunain ac felly rhaid blaenoriaethu offer i staff addysgu Cymru."*

# Casgliad

---

Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod rhaniad digidol yn dal i fod yng Nghymru ymhlith dysgwyr, er bod hyn yn llawer mwy sylweddol mewn rhai ysgolion a cholegau nag eraill. Er bod ymdrechion enfawr yn cael eu gwneud ar lefel genedlaethol, mewn awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau, i gael y dyfeisiau a'r data/MiFi i ddysgwyr, mae rhwystredigaeth yn dal i fodoli ynghylch cyflenwad dyfeisiau ar ôl nodi'r angen fisoedd lawer ymlaen llaw.

Mae hefyd yn glir bod ffactorau cymdeithasol yn bwysig iawn wrth ddeall y rhwystrau rhag cael plant a phobl ifanc i ymgysylltu â dysgu ar-lein. Mae llawer o'r rhieni'n profi diffyg amser, sgiliau, hyder, a hyd yn oed gofod yn eu tai i'w holl blant allu dysgu ar yr un pryd drwy wersi 'byw', ynghyd â heriau o ran rhannu dyfeisiau, diffyg data, a chysylltiad gwael. Adroddir nad yw rhai teuluoedd yn ymgysylltu o gwbl â dysgu ar-lein, a bydd llawer o ffactorau'n gysylltiedig â hynny.

Adroddodd yr ysgolion a'r colegau a ymatebodd i'r arolwg hwn am ymdrechion enfawr i ddarparu cefnogaeth ac addysg ddiddorol ac amrywiol, ac adroddwyd bod straen newidiadau cyflym mewn disgwyliadau i'w gweld ymhlith rhai staff. Mae yna rwystredigaethau oherwydd disgwyliadau'r cyhoedd a'r wasg am addysgu 'byw' fel 'safon aur', pan mai dim ond un teclyn ar gyfer dysgu effeithiol ar y pryd yw hyn.

# Gwelliannau a awgrymir

1. Dylai awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru ystyried canfyddiadau'r adroddiad hwn ochr yn ochr â'u harchwiliad presennol eu hunain er mwyn sicrhau bod problemau cyflenwi dyfeisiau sy'n dal i fodoli yn lleol yn cael eu datrys yn syth.
2. Gan gydnabod ymdrechion i ddsbarthu dyfeisiau MiFi, mae bylchau'n dal i fodoli. Er mwyn sicrhau cyflenwad ledled Cymru, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu eu trafodaethau gyda darparwyr band eang a symudol y Deyrnas Unedig ar frys, fel bod y cynigion sydd ar gael i gyfoedion yn Lloegr yn cael eu hymestyn i ddysgwyr yng Nghymru.
3. Er ei bod yn glir bod angen gwelliannau yn syth, dylai Llywodraeth Cymru weithio ar wella cysylltedd, mynediad at ddyfeisiau digidol, a hyder a sgiliau digidol ymhlith rhieni a gofalwyr ledled y wlad ar gyfer yr hirdymor. Mae addysg yn dibynnu ar allu dysgwyr i astudio'n annibynnol yn eu cartrefi, ac mae'r pandemig wedi atgyfnerthu anghydraddoldebau cymdeithasol ac addysgol. Cynhwysiant digidol yw un o'r llwybrau tuag at sicrhau bod gan bob plentyn gyfle cyfartal i gyflawni eu llawn botensial.

# Manylion Cyswllt

## Comisiynydd Plant Cymru

T: 01792 765600

W: [www.comisiynyddplant.cymru](http://www.comisiynyddplant.cymru)

E: [post@complantcymru.org.uk](mailto:post@complantcymru.org.uk)

## Gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor annibynnol Comisiynydd Plant Cymru

T: 01792 765600

E: [cyngor@complantcymru.org.uk](mailto:cyngor@complantcymru.org.uk)

W: [www.comisiynyddplant.cymru](http://www.comisiynyddplant.cymru)